COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL A MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 9fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Dylan Llwyd, Andrew T. Weir

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL

1. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Yn anffodus, derbyniwyd llythyr ymddiswyddo/ymddeoliad oddi wrth Cyng. Gwilym Hughes, sef Is-gadeirydd presennol y Cyngor brynhawn heddiw – fe'i darllenwyd er gwybodaeth ond, ni ellid gweithredu arno oherwydd nad yw ar raglen y cyfarfod. O ganlyniad, bodlonodd y Cadeirydd, Cyng. Alun Jones, gadeirio cyfarfod heno a gohiriwyd ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y flwyddyn 2018 – 2019 tan gyfarfod mis Mehefin.

2. **ENWEBIADAU IS-BWYLLGORAU**

Enwebwyd yr aelodau a ganlyn ar yr Is-bwyllgorau:

- **Ariannol –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones a'r Clerc
- **Caeau Chwarae –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts a'r Clerc
- **Cynllunio –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelod o bob Ward (tri) a'r Clerc
- **Llwybrau –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Robert M. Jones, Andrew T. Weir a'r Clerc
- **Mynwent –** Cadeirydd, Is-gadeirydd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams a'r Clerc.

3. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU SEFYDLOG**

Derbyniwyd y Rheolau Sefydlog.

4. **ADOLYGU A MABWYSIADU'R RHEOLAU ARIANNOL**

Derbyniwyd y Rheolau Ariannol.

5. **ADOLYGU ASESIADAU RISG, ARCHWILIAD MEWNOL Y CYNGOR A'R GOFRESTR ASEDAU**

Cynhaliwyd a derbyniwyd yr adolygiad a'r archwiliad ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

6. **POLISÏAU**

Adolygwyd a mabwysiadwyd y polisïau a ganlyn: Amgylcheddol, Caeau Chwarae, Cyfle Cyfartal yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Cyfryngau Cymdeithasol, Diogelu Data, Gwefan/Cyhoeddi, Gweithredoedd Annerbyniol, Rheolau Lwfansau, Gwirfoddoli, Technoleg Gwybodaeth. Mabwysiadwyd y Polisi Iaith newydd a dderbyniwyd oddi wrth Gomisiynydd yr Iaith ac ychwanegu'r hyn a oedd yn rhan o un blaenorol y Cyngor – fe'i anfonir at y Comisiynydd i gael sêl ei bendith.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD 2018 – 2019**

Derbyniwyd a dosbarthwyd copi o'r dyddiadau i'r aelodau.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. John Gwilym Jones fuddiant personol yng nghais cynllunio C18/0287/39/YA – Sied amaethyddol i storio peiriannau ac offer – Cim, Bwlchtocyn, oherwydd ei fod yn berchennog tir cyfochrog a gadawodd y cyfarfod pan y'i trafodwyd.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ebrill 11eg a'r 26ain, 2018 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0418/39/LL Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd ar yr un safle, ynghyd â datblygiadau cysylltiad bach – Cartrefle Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd fod y dyluniad yn anghymarus â'r tai o'i amgylch ac anghytunir â'r hyn a nodir ym Mhwynt 5.3 (tud.13) y Datganiad Cefnogi Cynllunio y buasai'n "...gweddu'r safle'n llwyr â'r ardal o ran graddfa, cymeriad a dyluniad." Prydera'r Cyngor y dymchwelir tai traddodiadol y pentref i adeiladu rhai anghymarus eu siâp, yn arbennig pan nodir mai "tŷ unllawr bychan" yw'r gwreiddiol ac y bwriedir adeiladu un deulawr modern o ffurf (sgwâr) a graddfa addas â sinc (melyn...?).**
Gofynnwyd pam mai rŵan y cyflwynwyd y cais – er mai rhif a dyddiadau flwyddyn yn ôl sydd iddo a'r adroddiadau (ar wahân i'r un asesiad llifogydd) ac y cyfeiria ei ddatganiadau at Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd – ac oni ddylid ei drafod dan y Cynllun Datblygu Lleol newydd a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017?

C18/0287/39/YA	Sied amaethyddol i storio peiriannau ac offer **–** Cim, Bwlchtocyn **– Mynegwyd fod y sied yn rhy fawr i gae dwy acer a gofynnwyd sut gall storio peiriannau ac offer a ddefnyddir ar y fferm (cwestiwn 5), sydd yn y broses o gael ei gwerthu, pan ddisgrifir (cwestiwn 3) ei fod yn un ar wahân iddi [Datgan Diddordeb – JGJ]**
C18/0288/39/LL	**Cais Diwygiedig** i adeiladu estyniad, codi lefel to a gosod ffenestri gromen – Cyndel, Stád Llwyn Onn, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/0330/39/LL	Adeiladu modurdy sengl – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod mai modurdy fydd o**
C18/0360/39/LL	Adeiladu ffenestr gromen yn yr edrychiad cefn a gosod ffenestr to yn yr edrychiad blaen – 8 Lôn Hawen, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg.
- Ni dderbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Dîm Gwarchod y Cyhoedd parthed toiledau caffi Marchros. Noda'r eglurhad a dderbyniwyd oddi wrth y Tîm Gorfodaeth nad yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn ymwneud â darpariaeth/newidiadau mewnol megis toiledau, gan nad ydynt angen caniatâd cynllunio. Disgynna darparu toiledau dan ddeddfwriaeth wahanol a dim ond pan mae newid defnydd materol neu allanol eiddo y daw'r Gwasanaeth yn rhan o'r broses. Mynegwyd mai cynllun o'r newydd ydoedd – penderfynwyd ysgrifennu eto.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

Gweler cofnod 6. Caeau Chwarae isod.

c) **Meddygfa Aber-soch**

- Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ateb oddi wrth Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyl Ardal Gofal Cychwynnol.
- Deallwyd nad oes gofyn am wasanaeth O Ddrws i Ddrws gan gleifion y gymuned a bod posibilrwydd y daw i ben cyn diwedd y cyfnod prawf o dri mis.

ch) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Derbyniwyd y pecynau oddi wrth Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Hunan*iaith,* ynghyd â rhai busnes oddi wrth Paul Jones, Swyddog Datblygu Cymraeg Byd Busnes; bydd angen pennu dyddiad i'w dosbarthu ar y cyd er mwyn denu sylw atynt.

d) **10. Gohebiaeth**: **a) Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

Deil yr ymateb Cymraeg (50 tudalen) heb ei ddarllen.

dd) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): ii)** ***Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol***

Gweler cofnod 11. Diogelu Data (GDPR) isod.

e) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): iv)** ***Bwletin mis Ionawr – Templed Newydd Cynllun Iaith Gymraeg***

Gweler cofnod 6. y Cyfarfod Blynyddol uchod.

f) **10. Gohebiaeth: b) Llywodraeth Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**
Anfonwyd ymateb y Cyngor ond, yn anffodus, ni chafodd ei dderbyn ar Ebrill 23ain oherwydd ei fod dri munud yn hwyr... Cysylltwyd â'r Adran i fynegi siomedigaeth yn y neges a dderbyniwyd ddoe yn hysbysu hynny a disgwylir ymateb.

ff) **10. Gohebiaeth: dd) Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Ailfodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd**
Deallwyd yr ailystyrir rhywfaint o'r ailfodelu, o ganlyniad i'r holl wrthwynebiad a fu i benderfyniad Cabinet Gwynedd.

5. **MYNWENT**

a) **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffïoedd Claddu Plant**
Llythyr oddi wrth Steffan Jones, Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu, yn egluro'r drefn parthed yr uchod.

6. **CAEAU CHWARAE**

Gwahoddwyd chwe chwmni – Wicksteed, G.L. Jones, HAGS, Back on Track (traciau beic), Hand Made Places a Caloo – hyd yma. Derbyniwyd amrywiol brisiau oddi wrth Wicksteed yn dilyn ein cyfarfod mis diwethaf. Cydnabod neges a wnaeth y pedwar olaf hyd yma. Trefnir cyfarfod â chynrychiolydd o G.L. Jones at ddydd Gwener.

7. **CYFRIFON**

a) **Cytundeb Trydan y Toiledau**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth npower yn nodi y gwrthwynebodd y trosglwyddiad i e-on ac o gael sgwrs â swyddog, deallwyd bod rhaid rhoi mis o rybudd o'r dyddiad y gwneid hynny – camddealltwriaeth ar ran y Clerc. O ganlyniad, caiff e-on wneud ei gais ar Fai 16eg.

b) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Eglurwyd mai cyfarfod holi ac ateb, ac nad oedd dogfennaeth ar gael, a gynhelid i Glercod yn Llandudno heddiw – angen barn mynychwyr yn fwy na dim.

c) **Archwiliad Ariannol**
Derbyniwyd ffurflenni oddi wrth BDO – Gorffennaf yr ail yw dyddiad ein harchwiliad a dylid ei hysbysebu rhwng Mai 21ain a Mehefin 4ydd.

ch) **Ad-daliad TAW 2017 – 2018**
Derbyniwyd yr ad-daliad (gweler 14. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod), ynghyd â llythyr yn egluro y gellir llenwi'r ffurflen ar y we ond, bod rhaid ei phostio ar hyn o bryd.

d) **Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Ariannol, Asesiad Risg a Llif Arian**

i) ***Adroddiad Ariannol a Llif Arian***
Dosbarthwyd taflen Llif Arian i bawb ac aethpwyd trwyddi. Adroddwyd bod:

- £49749.12 yn y Cyfrif Cyfredol

- £11276.22 yn y Cyfrif Cadw
- £3314.00 yng Nghyfrif y Fynwent.

ii) ***Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol***
Cynhaliwyd yr arbrawf a'r asesiad risg – fe'u cadarnhawyd gan y Cyngor a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

8. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned**
O ran yr ymholiad a wnaethpwyd am y siale/cwt yn Fronheulog, Lôn Garmon, atebwyd nad yw'n angenrheidiol bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer gosod strwythur/adeilad o'r fath o fewn cwrtil tŷ annedd; mae'n llwyr ddibynnol ar ei faint a/neu ddefnydd. Cysylltir eto â chanlyniad yr archwiliad.

b) **10. Gohebiaeth: d) Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio**
Gweler cofnodion cyfarfod nos Iau, Ebrill 28ain o ran ymweliad Cara Owen, Rheolwr Rheolaeth Datblygu, â'r Cyngor i drafod y drefn gynllunio.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
- Gosodwyd y peiriannau talu ond, ni chânt eu defnyddio – cysylltir i holi pam.
- Tynnwyd yr arwyddion system unffordd erbyn hyn.

b) **Blwch Post Llangian**
Ni osodwyd y blwch hyd yma. Deallwyd yr holodd yr Aelod Lleol ei hynt eto.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Gwasanaeth Bwrdeistrefol parthed yr uchod.

ch) **Materion yn y Gymuned – iii) Clytio Lôn Cae Du/Ailwynebu Lôn Engan**
Newid Trefn Cyffordd Lôn Gwydryn/Lôn Engan
Ceisir trefnu cyfarfod safle â Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, i drafod y bwriad o newid trefn y gyffordd.

d) **Llinellau Gwyn Sarn Bach**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Uwch Beiriannydd Traffig, yn egluro y penderfynodd y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ddiddymu'r llinellau gwyn fel rhan o gynllun peilot i geisio lleihau cyflymder mewn pentrefi cefn gwlad. Bwriedir monitro'r cyflymder dros gyfnod o flwyddyn a gwahoddir sylwadau ar y mater. Atododd, er gwybodaeth, erthygl a gyhoeddwyd ar wefan y BBC ym mis Chwefror, "*Are Roads Safer with No Central White Lines?"*

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau***
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, na Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad. O ganlyniad, penderfynwyd gofyn i'r tri contractwr a wnaeth y gwaith y llynedd ei wneud eto eleni ac y cysylltir â hwy i'w ddechrau ar ôl cyfarfod mis Mehefin.

11. **DIOGELU DATA (GDPR) – DOGFENNAETH**

Adroddodd y Clerc fod y **c**yfarfod a fynychodd yng Nghaernarfon yn un buddiol – mae gwaith darllen ar y ddogfennaeth (NALC) ac mae angen mabwysiadu polisi ac ati. Dechreuwyd chwynnu a gwaredu ffeiliau yn dilyn derbyn copi o restr cyfnodau cadw yn y cyfarfod. Disgwylir arweiniad pellach oddi wrth Un Llais Cymru, yn arbennig parthed penodi Swyddog Data i'r Cyngor; ni chaiff Clerc fod yn un ar ei gyngor ei hun. Daw'r Rheoliad newydd i rym ar Fai 25ain.

12. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Calonnau Cymru yn Gweithio â'ch Cymuned (Diffribilwyr – Neuadd Mynytho)***

Derbyniwyd llythyr, ynghyd â chopi o fantolen gyfredol, oddi wrth Mr. Glyn Owen, ar ran Pwyllgor Neuadd Mynytho (er na chyfarfu ers pan ofynnwyd am gais trwy lythyr) yn egluro ei fwriad o geisio adnewyddu'r Neuadd a chreu maes parcio ar ei chyfer. Ymatebwyd drwy ddweud mai cyfrannu at brynu diffribiliwr – crybwyllwyd y ceisiai Bwyllgor y Neuadd neu ardalwyr Mynytho godi arian at brynu un yng nghyfarfod Mawrth – pan drafodwyd yr uchod ac mai cefnogaeth eiriol yn hytrach nag ariannol a fuasai'r Cyngor at y gwelliannau.

ii) ***Cynrychiolwyr Cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarthol***
Anfonwyd manylion y Clerc a'r Cadeirydd.

iii) ***Cynhadledd Arfer Arloesol ULlC***
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir ar Faes i Sioe Amaethyddol, Llanelwedd, ar Orffennaf 4ydd.

iv) ***Arweiniad Gwasanaethau***
Copi, er gwybodaeth, o'r gwasanaethau a gynigia ULlC.

b) **Siôn Gwilym – Mapio'ch Cyngor**
Gwasanaeth yn cynnig mapiau digidol o ansawdd uchel sy'n ddelfrydol i drafod ceisiadau cynllunio – £18.00 y map. Gofynnwyd pa mor fawr ydyw – cysylltir i holi ymhellach.

c) **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018**
Gwybodaeth am yr uchod a lawnsir ddydd Iau, Mai 10fed yn Y Ganolfan, Porthmadog. Diben y wobr yw cydnabod cyfranogiad cymunedol ym mhob agwedd o fywyd pentrefol.

ch) **Digwyddiad Gwynedd Ddigidol**
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir nos Fawrth, Mai 15fed yn Y Ganolfan, Porthmadog, i rannu gwybodaeth am ddau gynllun: Mynediad i Bawb (Pwyntiau TG) a Mynediad Cyhoeddus i WiFi.

d) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Aber-soch 10k Sensation**
Copi o ohebiaeth rhwng Barry Davies a Mark Durston, Trefnydd y Ras, yn gofyn am farn yr Aelod Lleol a'r Cyngor hwn. Trefnwyd parti i ddathlu dengmlwyddiant y ras heb gysylltu'n iawn â'r awdurdodau perthnasol. Gofynnodd yr olaf a fyddai modd iddo fynychu cyfarfod heno i roi mwy o fanylion ac ateb unrhyw gwestiwn am y

digwyddiad – fe'i atebwyd yn dweud na fyddai'n bosibl oherwydd y Cyfarfod Blynyddol. Derbyniwyd copi o ymateb yr Aelod Lleol yn gwrthwynebu'r digwyddiad oherwydd pryderon yr Heddlu, trigolion lleol ac ati; penderfynwyd ei wrthwynebu.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0967/39/LL	Creu safle ar gyfer 12 pabell saffari – Tir yn Ty'n y Cae, Llangïan **– Gwrthodwyd**
C18/0189/39/LL	Ffenestr gromen newydd â tho brig llechi a gosod to brig llechi ar y ffenestr gromen bresennol – Lleferin Bach, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0214/39/LL	Adeiladu modurdy tri bae gyda llety uwchben – Corner House, Lôn Golff, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C18/0228/39/LL	Adeiladu estyniad a ffenestri gromen – Penrhos, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**

14. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mai (Rh/S 002146) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Bacstal Pac – £219.60 (Rh/S 002144 – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau Chwarterol/Ymrestru Awtomatig a Datganiad Cydymffurfio Ymrestru Awtomatig)
b) Cyngor Gwynedd – £10,000.00 (Rh/S 002145 – Cytundeb Cynnal a Chloi'r Toiledau)
c) npower Business – £55.63 (D/U – Trydan y Toiledau)
ch) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 20147 – Talu Wrth Ennill)

Derbyniadau
a) Toiledau – £118.18 (Tâl Mynediad – £16.40, £24.80, £77.60)
b) Cyngor Gwynedd – £25,000 (Taliad Cyntaf Praesept 2018 – 2019)
c) Cyllid a Thollau – £2582.70 (Ad-daliad TAW 2017 – 2018)

15. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mehefin 13eg, 2018 am saith o'r gloch